BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **CADARNHAWYD**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD DDYDD GWENER 11 GORFFENNAF 2008

Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Teresa Rees
Andy Carter
Dafydd Whittall
Sangeet Bhullar
Alex McMillan
Nicola Branson
Jane James
Dennis Gethin
Roy Grant
Arun Midha

Staff BBC Cymru Wales:

Keith Jones
Mark O'Callaghan
Clare Hudson
Cath Allen
Rhodri Talfan Davies

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd, Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Catherine Evans, Myfyriwr ar Brofiad Gwaith gyda Staff Ymddiriedolaeth BBC Cymru.

Yn gwasanaethu

Fran O'Brien, Pennaeth Safonau Golygyddol, Uned Ymddiriedolaeth y BBC (dros y ffôn ar gyfer eitem 54)
Danny Cohen, Rheolwr BBC THREE (ar gyfer eitem 55)

49. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Menna Richards
Carl Cooper

50. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Trafodwyd ymddangosiad aelodau Cyngor Cynulleidfa Cymru gerbron Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol. Nodwyd bod natur y cwestiynau gan Aelodau'r Cynulliad wedi gwneud ateb y cwestiynau'n uniongyrchol yn anodd. Roedd aelodau'r Cyngor yn teimlo bod y berthynas deir-ran rhwng Ymddiriedolaeth y BBC, y Cynghorau Cynulleidfa a'r BBC wedi bod o dan y chwyddwydr.

Nododd y Cyngor bod nifer o'r materion yn adroddiad Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol yn faterion ar gyfer Llywodraeth y DU.

Aethpwyd i'r afael â'r mater ynghylch dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y Cynghorau Cynulleidfa yng Nghynllun Gweithredu Cynyddu Effeithiolrwydd y Cynghorau Cynulleidfa, a chytunwyd felly y dylid sefydlu is-gr p o aelodau'r Cyngor Cynulleidfa i fynd i'r afael â'r maes hwn i gyd, gyda'i gyfarfod cyntaf i'w gynnal brynhawn y 4ydd o Fedi gan adrodd i'r Cyngor Cynulleidfa llawn y diwrnod canlynol.

Awgrymwyd hefyd y dylai Cyngor Cynulleidfa Cymru ystyried ei rôl craffu, gan gynnwys comisiynu gwaith ymchwil i ychwanegu at y wybodaeth ymchwil yr oedd yn ei chael gan reolwyr y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC. Penderfynodd y Cyngor y dylid cynnal gwaith ymchwil ar bobl h n a'r rheiny sydd â dementia, a gofynnodd i dîm Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu gwaith ymchwil yn y maes hwn. Hysbyswyd y Cyngor y byddai timau Cynulleidfaoedd a Pherfformiad Uned yr Ymddiriedolaeth yn darparu data ar gynulleidfaoedd i'r Cyngor Cynulleidfa yn y dyfodol er mwyn llywio penderfyniadau'r Cyngor Cynulleidfa.

GWEITHREDU: Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd

Awgrymwyd y dylai aelodau'r Cyngor Cynulleidfa geisio cael gwahoddiadau i fynychu cyfarfodydd y Cynghorau Cynulleidfa eraill, a gwahodd aelodau o Gynghorau eraill i gyfarfodydd Cyngor Cynulleidfa Cymru, er mwyn i bob Cyngor allu dysgu wrth ddull gweithredu Cynghorau eraill.

Gofynnodd y Cyngor am gael sesiynau briffio wedi'u trefnu ar: a) y dechnoleg sy'n gysylltiedig â gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ble bynnag a phryd bynnag y mae'r gynulleidfa'n dymuno er mwyn bod ymarferoldeb y peth yn cael ei esbonio, a b) diweddariad ar y sefyllfa'n ymwneud â thrwyddedau amlblecs digidol.

GWEITHREDU: Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor fod blaenoriaethau'r Cyngor Cynulleidfa wedi'u cytuno ag Ymddiriedolaeth y BBC ac wedi'u cynnwys yn rhaglen waith yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol.

Cytunodd y Cyngor ar gynllun gwaith y Cyngor Cynulleidfa i'r dyfodol.

Ymunodd Rheolwyr y BBC â'r cyfarfod

51. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL AC UNRHYW FATERION SY'N CODI OHONYNT

Gydag un golygiad bach ychwanegol, derbyniwyd y cofnodion fel cofnod gwir a chywir o gyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin.

Dan materion sy'n codi, (cofnod 42) hysbyswyd y Cyngor bod y Pennaeth Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol wedi ymateb i lythyr gan Bennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru a oedd yn hysbysu'r Cyngor y byddai rhaglenni teledu Cymraeg eu hiaith yn dechrau dod ar gael ar yr iPlayer ddiwedd mis Awst ac y byddai rhyngwyneb Cymraeg yn un o nodweddion ail fersiwn yr iPlayer pan fyddai'n cael ei lansio yn gynnar yn yr hydref.

Cafodd y Cyngor y newyddion diweddaraf am y sefyllfa'n ymwneud â rhyddhau asedau BBC Jam. Pe bai'r Ymddiriedolaeth yn cytuno, byddai'r gwaith yn dechrau cyn gynted ag sy'n bosibl gyda thîm yn cael ei ailffurfio yng Nghymru i gydlynu agweddau ar y gwaith hwn. Ni fydd y brand Jam yn cael ei ddefnyddio ac yn y dyfodol, ni fydd y deunydd hwn yn cael ei frandio dan enw ar wahân, ond bydd yn cael ei leoli ar y tudalennau gwe sy'n bodoli'n barod ar gyfer addysg dan y penawdau pwnc yn hytrach nag fel adran annibynnol sy'n hollol ar wahân.

52. ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Adolygiad Diweddarwydd Newyddion Rhwydwaith y Gwledydd a'r Rhanbarthau – dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol fod Ymddiriedolaeth y BBC yn dal i aros am ymateb manwl gan reolwyr y BBC ar yr adroddiad hwn a bod disgwyl i'r ymateb hwnnw fod ar gael yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth ym mis Gorffennaf.

Roedd Comisiynu ar gyfer y Rhwydwaith yn fater a fyddai'n cael ei drafod yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth ym mis Gorffennaf hefyd. Hysbysodd y Cyngor, er bod yr unigolion sy'n ymwneud â'r Adolygiad Comisiynu ar gyfer y Rhwydwaith yn mynd ynghylch eu gwaith ag agwedd benderfynol, roedd datrys y problemau wedi bod yn anodd.

Ymateb y BBC i adolygiad Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom

Roedd ymateb i Gam Un **adolygiad Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom** wedi'i gyflwyno gan y BBC. Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor mai'r cam nesaf fyddai i Ofcom gyhoeddi casgliadau rhagarweiniol yn yr hydref ac yna byddai'r Cyngor yn cael cyfle i ymateb iddynt.

Rheolwr Cymru

Yn absenoldeb y Rheolwr, cyflwynodd y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) adroddiad y Rheolwr. Roedd Prif Gyfarwyddwr y BBC wedi crybwyll *Coal House* yn ei gyflwyniad yn y digwyddiad i lansio Adroddiad Blynyddol y BBC gan ddangos yr effaith yr oedd y gyfres hon gan BBC Wales wedi'i chael. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod y sefyllfa ariannol sydd ohoni yn parhau i fod yn heriol iawn a'i bod yn mynd yn fwyfwy anodd.

Cynhaliwyd arolwg staff yn ddiweddar ac roedd gwybodaeth fanwl o'r arolwg hwnnw ar gael i dimau unigol y BBC. Roedd nifer o bwyntiau cadarnhaol yn codi o ganlyniadau'r arolwg megis teimlad o falchder o fod yn gweithio i'r BBC, ond roedd hefyd rhai materion nad oeddent yn peri syndod ond a oedd yn cynnig her.

Hysbyswyd y Cyngor bod cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygwyd gan y canlyniadau.

Hysbyswyd y Cyngor bod nifer o ddigwyddiadau wedi bod yn ystod y mis blaenorol, gan gynnwys cyngerdd gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a oedd yn cyd-daro â'r gyfres deledu *Wild about Nature*.

Roedd Meredith Chambers wedi'i recriwtio'n ddiweddar yn Gynhyrchydd Gweithredol ar gyfer Adran Ffeithiol BBC Cymru Wales.

Hysbysodd y Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd y Cyngor fod cyhoeddiad wedi'i wneud yn ddiweddar ynghylch amserlen Radio Cymru. Y prif newid i'r amserlen oedd rhoi'r gorau i gynnig darpariaeth ar wahân i ardal y de-orllewin a'r penderfyniad hwn oedd wedi ennyn yr ymateb mwyaf. Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni wrth y Cyngor nad oedd y ddarpariaeth arbennig hon yn fodd o sicrhau bod Radio Cymru'n cyrraedd mwy o bobl.

Cytunodd y Cyngor ei bod hi'n bryd newid amserlen Radio Cymru. Ymatebodd y rheolwyr trwy ddweud mai un nod allweddol oedd cael lleisiau lleol i gyfrannu at gynifer o raglenni ag sy'n bosibl ar draws amserlen Radio Cymru.

Adroddiad y Bwrdd

Hysbyswyd y Cyngor bod miliwn o ddefnyddwyr unigol wedi ymweld â gwefan Doctor Who ar ôl darlledu'r rhaglen olaf yn y gyfres ddiwethaf, a bod10 miliwn o wylwyr wedi gwylio'r rhaglen honno.

Gofynnodd y Cyngor am i adroddiadau'r Bwrdd edrych ymlaen yn ogystal ag edrych yn ôl o hyn allan er mwyn i'r Cyngor gael rhyw syniad o ddigwyddiadau mawr y dyfodol. Cytunodd rheolwyr BBC Cymru y byddai hyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun sicrhau bod adroddiadau'r Bwrdd yn canolbwyntio ar ddibenion cyhoeddus y BBC i raddau mwy helaeth.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai dwy o sgriniau mawr y BBC yn cael eu lleoli yng Nghymru, un yn Sgwâr y Castell, Abertawe a'r llall yn ardal yr Ais yng Nghaerdydd. Y prif bethau a fyddai'n cael eu dangos ar y sgriniau hyn fyddai chwaraeon a newyddion. Gobeithiwyd y byddai mwy o sgriniau mawr yn cael eu lleoli mewn rhannau eraill o Gymru yn y dyfodol. Byddai'r arian ar gyfer y sgriniau hyn yn dod o adnoddau'r Rhwydwaith, ond byddai BBC Cymru'n cyfrannu at y gwaith o'u rheoli.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai pennod arbennig o *Torchwood* yn cael ei darlledu yn y dyfodol agos gan BBC Radio 4 i gyd-daro â phen-blwydd agor cyfleuster CERN yn Genefa.

53. PRAWF O WERTH CYHOEDDUS AR DDEUNYDD FIDEO LLEOL

Hysbysodd y Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes y Cyngor fod gwahaniaethau mawr yn yr ymatebion i'r cynigion yn Lloegr o'u cymharu â'r ymatebion yng Nghymru. Roedd y cynigion ar gyfer Lloegr wedi cael ymateb eithaf beirniadol, nid lleiaf wrth y Gymdeithas Papurau Newydd. Roedd y Prawf o Werth Cyhoeddus yn

ymwneud yn benodol â darpariaeth fideo, ac roedd enghreifftiau diweddar o ymatebion y gynulleidfa yn awgrymu'n glir bod awydd am ddarpariaeth fideo ar y we.

Hysbysodd y Cyngor fod cyd-destun Cymru yn wahanol iawn i'r cyd-destun yn Lloegr. Nid oedd rhwydwaith o orsafoedd radio masnachol na gorsafoedd radio lleol y BBC yng Nghymru ac roedd y wasg yn eithaf gwan hefyd. Awgrymodd y gallai cyflwyno gwasanaeth Fideo Lleol gyfrannu rhywfaint at lenwi'r 'diffyg democrataidd' yng Nghymru yr oedd y Comisiwn Etholiadol wedi cyfeirio ato mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2006.

Roedd pob un o'r rhanbarthau a gynigiwyd ar gyfer Cymru llawer yn fwy nag ardal ddosbarthu unrhyw bapur newydd lleol unigol ac felly byddai'r gwasanaeth yn cynnig rhywbeth gwahanol i'r hyn a gynigir gan y cyhoeddiadau hynny. Yn ogystal, roedd y cynigion hyn yn mynegi awydd i gydweithio â phapurau newydd lleol a sefydlu partneriaethau â nhw gyda deunydd fideo ar gael yn rhad ac am ddim i'r papurau newydd ei ddefnyddio ar eu gwefannau eu hunain.

Yn ogystal, byddai newyddion lleol yn cael ei brynu wrth ddarparwyr annibynnol a byddai rhaglen hyfforddi'n cael ei lansio er mwyn hyfforddi newyddiadurwyr papurau newydd lleol i ffilmio a golygu pecynnau newyddion i'w cynnwys ar wasanaeth Fideo Lleol y BBC.

Atgoffwyd y Cyngor y byddai'r gwasanaeth hwn ar gael trwy fand-llydan yn unig, a bod memorandwm o ddealltwriaeth wedi'i lofnodi'n ddiweddar gyda llyfrgelloedd ar draws Cymru a fyddai'n golygu bod llyfrgelloedd yn gallu cael mynediad i wasanaeth Fideo Lleol y BBC.

Hysbyswyd y Cyngor bod y cyfnod ymgynghori ar y cynigion cyntaf wedi cychwyn, a bod yn rhaid cyflwyno sylwadau erbyn 4 Awst. Byddai'r ymgynghoriad ar gasgliadau cychwynnol y cynllun yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr, a phe bai'r gwasanaeth newydd yn cael ei gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC, byddai'n cael ei lansio yn 2009.

Pwysleisiodd y Cyngor y dylai'i ymateb i'r Prawf ar Werth Cyhoeddus bwysleisio'n glir y gwahaniaethau yng nghyd-destun y cyfryngau yng Nghymru a Lloegr – yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gofynnodd y Cyngor i reolwyr y BBC a oedd unrhyw ragamcanion wedi'u gwneud yn ymwneud â faint o bobl fyddai'n debygol o ddefnyddio'r gwasanaeth fideo lleol newydd hwn. Ymatebodd y rheolwyr trwy ddweud bod ymchwil wedi dangos bod awydd am y gwasanaeth newydd hwn a'i bod yn ymddangos bod y galw'n cynyddu - nid lleiaf oherwydd y nifer helaeth o lwyfannau y byddai'r gwasanaeth ar gael arnynt gyda ffonau symudol a band-llydan symudol yn cael eu defnyddio fwyfwy. Yn ogystal, cafodd y Cyngor ei atgoffa gan yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol fod sylwadau wedi dod i law am Fideo Lleol yn ystod y digwyddiadau allgyrraedd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd y Cyngor wedi penderfynu y dylid cyfeirio at y sylwadau hyn yn ei ymateb.

Pwysleisiodd y Cyngor bwysigrwydd y cynnwys y gellir ei fewnosod yng nghyd-destun y rhyngrwyd cyfoes. Hysbyswyd aelodau'r Cyngor mai gwefan *YouTube* â'i chlipiau fideo y gellir eu mewnosod yw'r wefan mwyaf poblogaidd ond un. Fodd bynnag, atgoffwyd y Cyngor y byddai safonau golygyddol y BBC yr un mor ganolog i'r gwasanaeth Fideo Lleol ag y maent i weddill gwasanaethau'r BBC. Codwyd y posibilrwydd o gael deunydd wrth Brifysgolion Cymru yn ymddangos ar wefan Fideo Lleol y BBC, yn ogystal â deunydd wrth rwydweithiau cymunedol lleol eraill.

Cytunwyd y byddai ymateb yn cael ei ddrafftio ar ran y Cyngor gan ddefnyddio'r drafodaeth gyfoethog a gafwyd yn y cyfarfod yn ogystal â sylwadau a wnaethpwyd gan gynulleidfaoedd y BBC yn ystod digwyddiadau allgyrraedd y Cyngor a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Byddai'n cael ei ddosbarthu i aelodau'r Cyngor i gael eu sylwadau cyn iddo gael ei gyflwyno i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau diwygiedig, sef 4 Awst.

54. CYFLWYNIAD AR YR ADRODDIAD AR ADOLYGIAD DIDUEDDRWYDD Y BBC O'R SYLW A RODDIR I WLEDYDD UNIGOL Y DU AR Y RHWYDWAITH

Cafodd y Cyngor ei atgoffa gan Bennaeth Safonau Golygyddol, Uned yr Ymddiriedolaeth o'r dogfennau a gafodd eu cyhoeddi yn rhan o'r Adolygiad Diduedddrwydd – sef adroddiad Ymddiriedolaeth y BBC, dau adroddiad ymchwil, ac adroddiad annibynnol yr Athro Anthony King.

Tynnodd sylw at yr elfennau allweddol a oedd wedi'u nodi yn yr Adolygiad, a'r un mwyaf pwysig oedd y diffyg manylder yn adroddiadau Newyddion y Rhwydwaith. Dywedodd mai'r ail wendid allweddol a nodwyd yn yr Adolygiad Diduedddrwydd oedd bod adroddiadau Newyddion y Rhwydwaith yn cynnwys cyfran fawr o storïau a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig. Y trydydd mater a nodwyd yn yr Adolygiad oedd bod Newyddion y Rhwydwaith yn colli cyfleoedd yn gyson i gyfoethogi storïau trwy gyflwyno cymariaethau ar draws pob un o'r gwledydd sy'n rhan o'r DU. Y pedwerydd gwendid a nodwyd oedd y modd yr oedd rhaglenni Newyddion y Rhwydwaith yn mynd ati i ddod o hyd i ddeunydd ar gyfer eu bwletinau newyddion. Yn ystod y 4 wythnos a adolygwyd yn rhan o'r ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ni chafodd unrhyw storïau eu hadrodd ar raglenni Newyddion y Rhwydwaith am addysg, y celfyddydau, ffermio ac iechyd yng Nghymru neu'r Alban.

Roedd yr ymchwil ymhlith cynulleidfaoedd wedi dangos y byddai 88% o bobl o Gymru a gymerodd ran yn yr ymchwil yn dymuno gweld Newyddion y Rhwydwaith yn adrodd ar yr hyn a oedd yn digwydd mewn rhannau eraill o'r DU ac roedd 40% o ymatebwyr Cymru yn teimlo nad oedd llawer o Newyddion y Rhwydwaith yn berthnasol iddyn nhw gyda 22% yn teimlo'n grac ynghylch y methiant hwn.

Dywedodd Pennaeth Safonau Golygyddol Uned Ymddiriedolaeth y BBC y byddai ymateb y Swyddogion Gweithredol yn cael ei gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC yn ei chyfarfod ym mis Gorffennaf ac y byddai'r Ymddiriedolaeth yn edrych ar y mater hwn eto yn ystod y deunaw mis nesaf gyda'r Cynghorau Cynulleidfa yn rhan o'r adolygiad hwnnw.

Adroddodd fod Cynghorau Cynulleidfa mewn rhannau eraill o'r DU wedi penderfynu gofyn am adroddiadau gan reolwyr y BBC yn eu gwledydd nhw ar y storïau yr oedd ystafell newyddion y wlad honno wedi cynnig y dylai'r rhwydwaith roi sylw iddynt, gyda manylion am y storïau hynny a oedd wedi'u cynnwys ar Newyddion y Rhwydwaith. Hysbysodd y Cyngor Cynulleidfa hefyd fod Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon wedi cynnig cynnal cyfarfod ar gyfer holl ohebwyr y rhwydwaith o bob un o wledydd unigol y DU. Cytunodd Cyngor Cynulleidfa Cymru y dylai hefyd gofyn am adroddiadau tebyg gan Bennaeth Newyddion a Materion Cyfoes Cymru yn ei gyfraniadau i Adroddiad Bwrdd BBC Cymru yn y dyfodol ac y byddai'r Cyngor Cynulleidfa'n cynnal cyfarfod ar gyfer Gohebwyr Arbenigol Newyddion y Rhwydwaith hefyd - gyda'r awgrym y byddai'n dda cynnal cyfarfod ar gyfer Gohebwyr Amaeth pob un o wledydd y DU.

GWEITHREDU Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru

Mynegodd aelodau'r cyngor eu diddordeb mewn gweld ac ystyried ymateb Swyddogion Gweithredol y BBC, ond mynegwyd pryder ynghylch y diffyg cynnydd sydd wedi bod hyd yn hyn, gan nodi enghraifft o stori ar Newyddion y Rhwydwaith yn adrodd am TB mewn gwartheg yn Lloegr heb gyfeirio unwaith at y sefyllfa yng Nghymru, sy'n wahanol iawn, a hynny 10 diwrnod yn unig ar ôl cyhoeddi Adolygiad Diduedddrwydd yr Ymddiriedolaeth.

Ailadroddodd y Cyngor bwysigrwydd datblygu gwell ymwybyddiaeth o'r sefyllfa gyfansoddiadol, nid yn unig ar Newyddion y Rhwydwaith, ond yn fwy eang ymysg cynulleidfaoedd y BBC, a phwysleisiodd y dylid gweld Adolygiad Diduedddrwydd Ymddiriedolaeth y BBC fel y cam cyntaf yn y broses honno yn hytrach nag yn derfyn y daith.

Yn ogystal, mynegodd y Cyngor bryder fod yr ymchwil a gynhaliwyd yn rhan o'r adolygiad diduedddrwydd fel pe bai wedi methu â gwahaniaethu rhwng agweddau'r gynulleidfa tuag at y BBC yn gyffredinol a'u hagweddau tuag at BBC Cymru Wales. Mynegodd y Cyngor bryder hefyd fod yr un peth yn wir am y Cynulliad Cenedlaethol, gan awgrymu bod y methiant hwn wedi dod i'r amlwg yn ymateb diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ymgynghoriad ar Adolygiad OFCOM o Ddarlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus ac yn adroddiad Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol.

Nododd y Cyngor ei fod yn ystyried bod adroddiad yr Athro Anthony King yn 'bleser i'w ddarllen' gan ei fod wedi'i ysgrifennu'n dda iawn ac yn llawn enghreifftiau cadarn a oedd yn cyfiawnhau ei gasgliadau.

55. CYFLWYNIAD GAN DANNY COHEN, RHEOLWR, BBC THREE

Hysbyswyd y Cyngor fod y Rheolwr wedi bod gyda BBC THREE ers ychydig dros flwyddyn, ac mai un o'i nodau allweddol yn ystod y cyfnod hwnnw oedd canolbwyntio o'r newydd ar yr ystod oedran 16 - 34, gyda phwyslais ar ben isaf yr ystod.

Ail nod oedd cydnabod bod pobl iau'n defnyddio deunydd mewn amryw ffyrdd, gyda chynnwys sydd ar gael ble bynnag a phryd bynnag y mae'r gynulleidfa'n dymuno, a chynnwys wedi'i ffrydio'n dod yn gynyddol bwysig iddyn nhw.

Yn drydydd, hysbysodd y Cyngor fod yr amserlen wedi'i had-drefnu i gynnwys deunydd a oedd yn amlwg yn fwy difrifol nag o'r blaen. Roedd *Sweat Blood and T-shirts* yn un enghraifft o hyn ac roedd mwy o raglenni o'r fath wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol agos.

Roedd perfformiad y sianel wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd *Gavin & Stacey* wedi bod yn rhan fawr o'r llwyddiant hwnnw, a byddai datblygu talent newydd yn parhau i fod yn ffocws i'r sianel.

Dywedodd y Cyngor ei fod yn braf gweld y Barri a Chaerdydd yn cael eu darlunio yn *Gavin & Stacey* - cynhyrchiad annibynnol i'r Rhwydwaith. Ymatebodd rheolwr BBC THREE trwy ddweud bod un cynhyrchiad megis *Gavin & Stacey* yn gallu cael effaith sylweddol ar y modd y mae ardaloedd daearyddol yn cael eu gweld.

Gofynnodd y Cyngor iddo am y lefel uchel o raglenni annibynnol a gomisiynir gan BBC THREE hefyd, ac ymatebodd trwy ddweud fod hyn yn bennaf oherwydd bod y syniadau gorau wedi dod yn ddiweddar wrth gwmnïau annibynnol - yn enwedig ar gyfer rhaglenni ffeithiol.

Cymeradwyodd y Cyngor BBC THREE am raglenni dogfen megis *Sweat Blood and T-shirts* a oedd yn atgoffa pobl ifanc o werth go iawn eitemau megis dillad. Ymatebodd rheolwr BBC THREE trwy ddweud bod mwy o raglenni'n cael eu cynllunio sy'n edrych ar faterion megis cynhyrchu bwyd.

Gofynnodd y Cyngor ynghylch ymestyn yr oriau darlledu ar gyfer BBC THREE. Ymatebodd trwy ddweud bod y sianel yn gobeithio newid ei hamser dechrau o 7pm i 3pm.

Yn ogystal, gofynnodd y Cyngor i'r rheolwr a fyddai BBC THREE yn edrych ar ymestyn ei ddarpariaeth o ran y celfyddydau a cherddoriaeth. Ymatebodd trwy ddweud bod llawer o'r gyllideb bresennol wedi'i chlustnodi i'r ddarpariaeth cerddoriaeth fyw ac nad oedd unrhyw gynlluniau i newid hynny ar hyn o bryd.

Gofynnodd y Cyngor i'r Rheolwr ymhelaethu ar y berthynas rhwng BBC One a BBC THREE a dywedodd mai un nod oedd i BBC THREE ddod yn 'BBC One ar gyfer pobl ifanc'. Roedd deunydd yn cael ei rannu â BBC One ac roedd cynnwys yn cael ei drosglwyddo hefyd o BBC THREE i BBC One.

Gofynnodd y Cyngor ynghylch darpariaeth chwaraeon BBC THREE ac ymatebodd y Rheolwr fod hwn yn rhywbeth a oedd yn cael ei groesawu ar BBC THREE ac na fyddai'n siom pe bai cynyddu oriau'r sianel yn arwain at ddangos mwy o chwaraeon.

Gofynnodd y Cyngor sut yr oedd Rheolwr BBC THREE wedi ymateb i rywfaint o'r feirniadaeth sydd wedi bod ar y sianel. Ymatebodd y Rheolwr trwy ddweud er bod

yn rhaid derbyn beirniadaeth heb gwyno, roedd yn wir dweud hefyd bod y feirniadaeth yn aml yn dod wrth y rheiny sydd y tu allan i'r gynulleidfa darged. Yn ogystal, cododd y pwynt pe bai rhai rhaglenni wedi bod yn llwyddiant ymysg y beirniaid, efallai na fyddent wedi bod yn llwyddiant gyda'r gynulleidfa darged.

Gofynnodd y Cyngor ynghylch llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, y bwletinau newyddion byr - '60 second news'. Ymatebodd Rheolwr BBC THREE trwy ddweud bod newid wedi bod i'r bwletinau hyn, gyda themâu gwahanol yn dod i'r amlwg yn ystod y bwletinau amrywiol. Dywedodd, yn ei farn ef, mai nod allweddol i BBC THREE oedd cyrraedd y gynulleidfa darged, ond darparu ar gyfer cynulleidfa ehangach hefyd. Nododd y Cyngor mai cynhesrwydd hynaws oedd agwedd fwyaf amlwg *Gavin & Stacey*, a nododd fod hyn hefyd yn nodwedd ar BBC THREE yn ei gyfanrwydd, ac roedd hynny'n rhywbeth i'w groesawu.

Gofynnwyd i Reolwr BBC THREE a oedd unrhyw gysylltiadau ffurfiol yn bodoli ag unrhyw orsafoedd radio. Ymatebodd trwy ddweud bod llawer o gydweithio â BBC Radio 1 a chysylltiadau â rhaglenni penodol.

Gofynnodd y Cyngor sut yr oedd y sianel yn cael adborth wrth ei chynulleidfa darged. Ymatebodd y Rheolwr trwy ddweud bod y sianel wedi datblygu proses flaengar a oedd yn sicrhau cyswllt rheolaidd ag aelodau o'r gynulleidfa trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb ag unigolion o bob rhan o'r DU a thrwy wefan lle gellir cofnodi ymatebion.

Gofynnodd y Cyngor ynghylch y graddau yr oedd y sianel yn trafod gwleidyddiaeth. Ymatebodd y Rheolwr trwy ddweud bod pobl ifanc yn ymwneud â gwleidyddiaeth, a'u bod yn amlwg yn ymwybodol o faterion moesegol, ond nad oedd ganddynt ddiddordeb o reidrwydd mewn gwleidyddiaeth bleidiol.

56. MATERION O FLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Fideo Lleol y BBC – gofynnodd y Cyngor am i'r mater allweddol a godwyd yn ystod ei drafodaethau ar y cynigion hyn, sef bod cyd-destun y cyfryngau yng Nghymru yn wahanol iawn i gyd-destun y DU yn ei chyfanrwydd, yn cael ei amlygu fel mater o flaenoriaeth i Ymddiriedolaeth y BBC.

57. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai ei gyfarfod nesaf ar 5 Medi yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd ac y byddai digwyddiad ymgynghori cyhoeddus, a gynhelir gan y Cyngor, yn cael ei gynnal gyda'r nos ar 4 Medi.